

Cyngor Cymuned Cerrig y Drudion
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Mehefin 2021

Presennol – Ffion Williams (cadeirydd), Maria Roberts, John D Jones, Guto Jones, Menai Hughes, Trystan Humphreys, Cyng. Peter Lewis, Caerwyn Roberts a Carol Humphreys (clerc).

Datgan diddordeb.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd - Cytunodd Maria Roberts i ymgymeryd ar swydd. Pasiwyd i adael dewis Is gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain o Fawrth 2021.

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Ni oedd yr heddlu'n bresennol.

[1.1] Llwybr bach paswyd i gystylltu efo'r Cyngor Conwy ynghlyn a chael llwybr troed o gyfeiriad yr ysgol hyd at croesffordd Cefn Brith, unai ar yr ochr chwith ne dde ir ffordd, gan ddatgan ein pryder am ddiogelwch y cerddwyr/pramiau sydd yn defnyddio y llwybr yma yn gyson, ac hefyd am y pryder defnyddwyr yr triogl EVO . Hefyd crybwyll efallai mai gwneud deisdeb fydd yr optiwn nesaf.

[1.2] Arwydd stryd King/Yr Ysgol mae'r mater yn cael sylw deallwn mae edrych am feddalwedd newydd ir arwydd sydd ei angen.

[1.3] Rhaglen Chwarae yr Haf – Cytunwyd i gyfranu £400 tuag at y cynllun chwarae yn y ganolfan yn ystod yr haf, gan nodi bod angen i un or sesiynnau wythnosol fod yn rhywbeth gwahanol i bel droed.

[1.4] Beics Moduron – Deallwn bod hyn yn dal i greu anhwylystod ac bod mesuriadau swm yn cael ei nodi ar hyn o bryd.

[1.5] Awdit – Cafwyd y cyfrifon ei cymeradwyo gan y cynghorwyr.

[1.6] Fynwent - Ar ol cyfarfod gyda peiriannydd y Sir yn y fynwent, deallwn bod Aeron Humphreys mewn trafodaethau a Stad Y Bwlch y Beudy a Bryn Jones Tan Ffordd er mwyn cael cario mlaen i roi pris ar ddraenio ochr arall ir ffens yn y fynwent.

[1.7] Trebor Jones - Cafwyd llythyr gan Trebor yn nodi bod am roi gorau i dorri y gwair yn y fynwent ddiwedd y flwyddyn. Y clerc i holi am brisiau i wneud y gwaith flwyddyn nesa.

[1.8] Haydn Roberts - anfoneb am dorri gwair yn yr Eglwys a Tyn Rhyd £200 paswyd iw dalu.

[1.9] Ty Gobaith – Gofyn am gyfraniad pasiwyd i gyfrannu £200.00.

[2] Parc chwarae – daeth sylw i law yn codi mater o bryder am ddiogelwch i blant, gofyn am glicied ir giat y ffordd a fydd yn rwystr i blant fynd ir ffordd, clerch i gysylltu efo'r Sir.

[2.1] Cysgodfa Bws - ysgrifennu ir Sir i gwynno am gyflwr tu allan ir cysodfa lle mae chwyn yn tyfu.

[2.2] Llyfrgell Cerrig – Nodwyd gan Caerwyn Roberts bod y llyfrgell ddim ond yn agored drwy 'r dydd ar ddydd Mawrth ar hyn o bryd ond disgwilir penodi staff yn dilyn ymddeoliad Dyfed yn ddiweddar.

Cadeirydd - _____